**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Judith Paget
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG
Llywodraeth Cymru

18 Mai 2022

Annwyl Judith

Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru

Gan nad oeddech yn gallu bod yn bresennol yn y sesiwn dystiolaeth a drefnwyd ar gyfer 9 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn y cwestiynau a ganlyn ar drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru. Wrth ystyried eich ymateb, bydd yr Aelodau'n trafod a ddylai'r sesiwn gael ei haildrefnu yn ystod tymor yr haf.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r papur ategol a gyflwynwyd ar gyfer y sesiwn wreiddiol, ac fe nodwyd y trefniadau uwchgyfeirio presennol ar gyfer Sefydliadau'r GIG yng Nghymru. A fyddech cystal ag ymhelaethu ar yr amserlenni ar gyfer pryd rydych yn disgwyl i'r sefydliadau hynny sy'n destun trefniadau uwch ar hyn o bryd gael eu hisgyfeirio?

Fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd - cyffredinol

Pa mor effeithiol fu'r fframwaith yn eich barn chi? A ydych yn teimlo bod y fframwaith wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol o ran nodi pryderon, cytuno ar yr ymatebion angenrheidiol a chefnogi gwelliant diriaethol? Lle nad yw'r fframwaith wedi gweithio cystal, a allwch egluro pam?

Mae tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod adolygiad o'r trefniadau hyn wedi dechrau ym mis Ionawr 2020, a bod y broses hon wedi cynnwys adolygiad allanol. Hefyd, nodwyd bod angen adolygu ac adnewyddu'r fframwaith presennol. Beth oedd prif ganfyddiadau'r adolygiad hwn a beth yw'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith?

Pa gyfraniad a wnaed gan bob un o'r tri phartner, sef Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Archwilio Cymru (AC) a Llywodraeth Cymru, wrth gyflawni'r broses o uwchgyfeirio ac ymyrryd?

Gwneud penderfyniadau

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol yn dilyn y trafodaethau teirochrog ynghylch a ddylid uwchgyfeirio neu isgyfeirio ai peidio?

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Pa wybodaeth a ffactorau sy'n helpu i lywio’r drafodaeth hon, a pha ffactorau sydd bwysicaf wrth wneud penderfyniadau?

Pa mor glir yw’r meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio a pha rôl y mae sefydliadau’r GIG yn ei chwarae wrth benderfynu neu gytuno ar y meini prawf hyn?

### Rheoli’r broses uwchgyfeirio

Yn ôl y dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, “…nid yw cadw sefydliadau mewn Mesurau Arbennig am gyfnod hir yn ddymunol”. Bu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o dan fesurau arbennig am tua phum mlynedd, gan alw am fewnbwn sylweddol o ran amser ac adnoddau – yn ariannol ac o ran staff. Fodd bynnag, mae’r bwrdd iechyd yn parhau i wynebu problemau ariannol a phroblemau o ran y gwasanaeth a gynigir. A ydych yn fodlon mai’r dull ymyrryd yw’r un cywir?

A yw Llywodraeth Cymru wedi edrych ar rinweddau dulliau gweithredu eraill - er enghraifft, ymyriadau byrrach a chyflymach, sydd â mwy o ffocws; neu’r defnydd o her ac adolygiad rhwng cymheiriaid neu gan unigolion allanol?

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall sicrhau gwelliant ddibynnu'n aml ar arweinyddiaeth y tu hwnt i dîm gweithredol y bwrdd iechyd, gan gynnwys ymhlith clinigwyr, rheolwyr canol ac aelodau annibynnol o’r bwrdd. A yw'r broses o uwchgyfeirio ac ymyrryd yn rhoi digon o sylw i gefnogi'r grwpiau hyn?

### Sicrhau gwelliant ac isgyfeirio

A oes gennych farn ynghylch a all y fframweithiau gwella fod yn rhy eang, gan olygu bod angen iddynt o bosibl ganolbwyntio ar set lai o flaenoriaethau sydd â mwy o ffocws? Os felly, a allwch ymhelaethu ar yr hyn yr hoffech ei weld mewn fframwaith sydd â mwy o ffocws?

Dros y blynyddoedd, mae ffactorau fel materion perfformiad neu orwariant ariannol parhaus wedi arwain at gamau uwchgyfeirio yn cael eu cymryd. Beth sydd angen digwydd os na all sefydliad wneud penderfyniadau unochrog sy'n seiliedig ar dystiolaeth effeithiol ar faint a ffurf y trawsnewid sydd ei angen ar wasanaeth penodol?

Ceir tystiolaeth y gallai arweinyddiaeth weinidogol a 'pherchnogaeth' o'r broses wella fod â rôl wrth drefnu ymyriad a helpu i sicrhau ei lwyddiant. Pa rôl y gall y Gweinidog ei chwarae wrth gefnogi'r broses ymyrryd ac uwchgyfeirio, a pha rôl y dylai’r Gweinidog ei chwarae yn y broses hon?

Diolch

Cofion



Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor